

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn via VIDEO CONFERENCE, Dydd Mawrth, 6 Gorffennaf 2021 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James (Cadeirydd), Brian Jones, Pat Jones, Tina Jones, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston (Is-Gadeirydd), Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swinger, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW); Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG); Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ); Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK); Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IMcG); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP); Cyflwynydd Zoom a Gweddarlledu (RTJ); a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Martyn Holland, Gwyneth Kensler, Merfyn Parry, David Williams ac Eryl Williams

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Cheryl Williams gysylltiad personol ag eitem 5 – Adolygiad Perfformiad Blynyddol – am ei bod yn rhentu eiddo sy'n perthyn i'r cyngor.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim eitemau bryn.

(a) Cwestiwn gan y Cynghorydd Paul Penlington:

Gofynnwyd i ni feddwl am gynigion i'w cyflwyno i Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth San Steffan ar 25 Mehefin, cyn y dyddiad cau, sef dydd Gwener 2 Gorffennaf. Gan fod y dyddiad cau wedi mynd heibio, allwch chi ddweud wrthym faint o gynigion a gafwyd a gan pa Aelodau, manylion pob

cynnig a beth fydd y broses rŵan ar gyfer ystyried pa gynigion fydd yn cael eu datblygu i'w cyflwyno i'r Gronfa Leol?

Ymateb yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans:

Anfonwyd e-bost at y Grwpiau Aelodau Ardal (GAA) sydd o fewn Etholaeth AS Dyffryn Clwyd a Gorllewin Clwyd sef GAA Elwy, y Rhyl, Prestatyn, Dinbych a Rhuthun.

Gofynnwyd i'r aelodau lenwi ffurflen yn nodi rhai syniadau cychwynnol am brosiectau i'w trafod gydag AS yr etholaeth honno y gellid o bosibl eu hystyried i'w cynnwys yn y cais Codi'r Gwastad.

Derbyniwyd ymatebion gan 5 aelod yn awgrymu amrywiaeth o brosiectau, yn cynnwys ailddatblygu adeiladau Canol Tref ac adeiladau mewn cymunedau gwledig.

Bydd y syniadau ar gyfer y prosiect yn cael eu trafod gyda'r AS, a bydd cyfle i drafod syniadau prosiect yr aelodau yn ogystal ag awgrymiadau gan yr AS a swyddogion yn fwy manwl yng nghyfarfodydd y GAA ym mis Gorffennaf.

Bydd ceisiadau yn y dyfodol, yn cynnwys yr holl brosiectau, yn gofyn am gefnogaeth yr AS.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Penlington gwestiwn atodol:

Mae'n rhaid clustnodi'r £20 miliwn ar gyfer prosiectau y gellir eu cyflawni erbyn Mawrth 2024, sef ychydig cyn yr etholiad cyffredinol nesaf. Nid yw hirhoedledd y cyllid hwn yn hysbys gan gan nad yw wedi ei nodi eto, sydd yn gwneud cynllunio'n iawn ar ei gyfer yn anodd dros ben. Mae'r amserlen ar gyfer ceisiadau yn ddychrynlyd o dyn a bydd unrhyw geisiadau am gyllid a gyflwynir yn cael eu cymeradwyo yn y pen-draw gan yr AS lleol ac nid Cynghorwyr Sir. Gan nad oes wybod beth ddaw yn y dyfodol a democratiaeth wedi mynd i San Steffan, mae Gwasanaethau CSDd ac Aelodau Lleol rŵan yn gorfod sgrialu dros benderfyniadau ariannu lleol ar gyfer eu hardaloedd eu hunain.

A fydd y gronfa Codi'r Gwastad hon yn cefnogi'r Cynllun Corfforaethol sydd dan drafodaeth ar hyn o bryd a'r Fargen Twf Gogledd Cymru ehangach?

Ymateb pellach gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans:

Mae'r £20m fesul etholaeth felly mae Dyffryn Clwyd yn etholaeth un AS a Gorllewin Clwyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych.

Mae hyn yn ffordd newydd o weithio i ni yn Sir Ddinbych. Mae'n her cwrdd â'r terfynau amser gan eu bod yn hynod o dyn fel y dywedwyd eisoes ac roedd yn sialens fawr i ni gyflwyno cais De Clwyd erbyn mis Mehefin. Wedi dweud hynny, pa un a ydym yn cytuno a'i peidio, mae posibilrwydd yma o

fuddsoddiad yn ein hawdurdod ni a'r unig ffordd y gallwn ddefnyddio'r gronfa Codi'r Gwastad yw drwy groesawu'r cyfle a gweithio gyda'r ddau AS perthnasol a cheisio dyfeisio prosiectau sy'n ffitio ein cymunedau.

Dyna pam yr wyf yn teimlo ei bod yn bwysig i ni greu proses ar gyfer ymgysylltu â'r ddau AS ac Aelodau i feddwl am brosiectau sy'n cyd-fynd â'u dyheadau ond yn fwy pwysig, yn cyd-fynd â'n dyheadau ni ar gyfer yr ardal hefyd.

Yr hyn sy'n bwysig yw y byddwn yn creu proses lle bydd ASau yn ymgysylltu â Chynghorwyr i ddatblygu prosiectau sy'n plesio'r ASau ond sydd hefyd yn ein plesio ni. Mae hyn yn bwysig dros ben ac mae'r ddau AS wedi cytuno i ddod i'r GAA ym mis Gorffennaf i drafod hyn.

Mae'r potensial i wella ein cymunedau drwy'r gronfa Codi'r Gwastad yn sylweddol. Nid yw'n ffordd ddelfrydol o weithio, rwy'n derbyn hynny, ond dim ond pwynt cychwyn ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin a fydd yn dod ymhen ychydig flynyddoedd yw hyn.

Mae'n bwysig ein bod ni fel Awdurdod nid yn unig yn croesawu hyn ond hefyd yn rhoi hyder i'r noddwyr y gallwn gyflawni, a dyna oedd y prif beth a ddaeth i'r amlwg gyda De Clwyd, bod yn rhaid i'r prosiectau fod yn rhai y gellir eu cyflawni.

A ydynt wedi'u halino â'r Cynllun Corfforaethol presennol? Nid o reidrwydd ond nid ydym eto wedi trafod prosiectau mewn manylder. Byddai'n bosibl eu halinio gyda Chynllun Corfforaethol y Cyngor nesaf wrth gwrs, a byddai'r Aelodau newydd mewn sefyllfa well i brofi hynny gyda'r Cynllun Corfforaethol nesaf.

Mae'n gyfle i fuddsoddi ac yn gyfle y dylem ei fachu a gwneud iddo ddigwydd i Sir Ddinbych.

(b) Deiseb gan y Cynghorydd Ann Davies:

Ar ran preswylwyr Nant Close, Rhuddlan, hoffwn gyflwyno'r ddeiseb hon yn erbyn plannu blodau gwyllt mewn mannau preswyl, droedfeddi o'u cartrefi. Er ein bod o blaid bioamrywiaeth ac yn deall fod gan Gyngor Sir Ddinbych ddyletswydd i ddarparu'r cynllun hwn, fel y mae tystysgrif Gwenyn Gyfeillgar Cyngor Sir Ddinbych yn datgan, rhaid cynnwys y gymuned. Mae trigolion yn siomedig nad ymgynghorwyd â hwy ac maent yn teimlo eu bod wedi colli eu man gwyrdd, rhywle i'r plant chwarae, eu diogelwch ac maent yn gofyn bod y gwair yn cael ei dorri.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd y byddai'r ddeiseb dan amgylchiadau arferol yn cael ei chyflwyno'n bersonol ond oherwydd bod y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, bydd yn cael ei hanfon i Neuadd y Sir am ymateb ymhen 14 diwrnod.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 18 Mai 2021.

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Mai 2021 yn gofnod cywir.

5 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2020/2021

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn nodi'r dadansoddiad chwarterol a diwedd blwyddyn ac amlygodd brosiectau a chamau gweithredu penodol i'w darparu yn 2021-2022.

Rhodddwyd gwybodaeth ynglŷn â chynnydd y Cyngor o safbwynt darparu deilliannau'r Cynllun Corfforaethol yn chwarter 4 2020-2021, gan ddiwallu'r ddyletswydd statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad erbyn Hydref 31 dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Roedd yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol (APB) wedi'i ehangu i gyfuno nifer o adroddiadau a arferent fod ar wahân yn un ddogfen, gan ddiwallu rhwymedigaethau'r cyngor dan sawl darn o ddeddfwriaeth yn cynnwys Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Am y tro cyntaf roedd yr APB yn cynnwys pennod 'beilot' newydd i fodloni'r angen i hunanasesu dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gan dynnu ar dystiolaeth a gyhoeddwyd a oedd ar gael o ffynonellau mewnol ac allanol ac edrych ar ddata a gytunwyd gan Uwch Reolwyr, roedd y bennod yn rhoi darlun ehangach o'r cyd-destun yr oedd y cyngor yn gweithredu ynddo wrth gyflawni ei amcanion perfformiad. Roedd hefyd yn ceisio dynodi unrhyw weithredoedd allweddol a fyddai'n gwella perfformiad wrth symud ymlaen.

Rhodddodd Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol grynodedb o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a rhoddodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad drosolwg o adran iechyd corfforaethol newydd yr adroddiad er mwyn bodloni'r angen i hunanasesu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ystyriodd y Cyngor yr APR ac roedd y prif feysydd trafod yn ymwneud â'r canlynol -

- Credyd Cynhwysol – bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol dros y 12 mis blaenorol ac wrth i'r trefniant ffyrlo ddod i ben, bydd yr effaith yn cael ei fonitro.
Mae CSDd, CAP a'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyd yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau y byddai cymorth ar gael, yn enwedig i helpu plant a theuluoedd. Dywedodd y Swyddogion wrth yr Aelodau y byddai'r Cynllun Corfforaethol newydd yn rhoi blaenoriaeth i dlodi plant.
- Diweithdra Ieuenctid – mae Sir Ddinbych yn gweithio ar TRAC ac ADTRAC o safbwynt diweithdra Ieuenctid.

I gael grantiau rhaid darparu adroddiadau gyda gwybodaeth fanwl. Mae cymorth yn cael ei gynnig i gynorthwyo â diweithdra ieuenctid. Cadarnhawyd y gellid darparu adroddiadau chwarterol ar gyfer yr Aelodau neu fel arall eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i edrych arnynt mewn mwy o fanylder.

- Yn ystod Covid mae gwaith yn Sir Ddinbych wedi'i addasu a rheolau a deddfwriaeth newydd wedi'u sefydlu.
Mae'n debyg na wnaiff pethau ddychwelyd i'r drefn cyn y pandemig. Mae cynllun adfer manwl wedi'i lunio a gobeithir gwella darpariaeth gwasanaethau. Mae cymunedau wedi dangos gwydnwch aruthrol yn ystod anawsterau'r pandemig.
- Codwyd materion digidol ond cadarnhawyd mai BT Openreach sy'n gyffredinol gyfrifol am y materion hyn a bod CSDd mewn trafodaethau â nhw.

CYNIGIODD y Cynghorydd Julian Thompson-Hill bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo a chafodd y cynnig ei EILIO gan y Cynghorydd Bobby Feeley.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r adroddiad.

PENDERFYNWYD - yn amodol ar unrhyw newidiadau cytunedig, bod y Cyngor yn cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2020-2021.

6 AMSERLEN BWYLLGORAU 2022

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, Steven Price, yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i alluogi'r Aelodau i gymeradwyo'r amserlen Bwyllgorau ddrafft ar gyfer 2022.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2022 er mwyn gallu cadarnhau trefniadau'r cyfarfodydd a'r adnoddau, cyhoeddi'r amserlen a llenwi dyddiaduron yr Aelodau.

Diolchodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd i'w gydweithiwr Kath Jones, Swyddog Pwyllgorau, am baratoi'r amserlen a chysylltu â swyddogion gan fod hyn wedi gofyn am drefnu gofalus iawn.

CYNIGIWYD GAN y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, EILIWYD gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain Jones.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r adroddiad.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen bwyllgorau ddrafft ar gyfer 2022.

7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, ynghyd â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Sesiynau Briffio'r Cyngor (a ddsbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd Cyfarfod Cyngor Arbennig wedi'i drefnu ar gyfer 22 Gorffennaf 2021 ar gyfer recriwtio Prif Weithredwr newydd.

Mae gweithdai'n cael eu trefnu ar gyfer y Gyllideb a Chyflog Byw Gwirioneddol.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor a Sesiynau Briffio'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.51am.